# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 2 Ebrill 2003

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**


1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid
2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd


## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

### Cau Swyddfeydd Post Gwledig

**C10 Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith cau swyddfeydd post mewn ardaloedd gwledig? (OAQ23825) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Y Gweinidog Cyllid (Edwina Hart):** Nid mater datganoledig yw polisi'r Royal Mail Group ccc. Fodd bynnag, cydnabyddaf mai swyddfeydd post yw ffocws sawl cymuned bentrefol ac maent yn ddolen gyswllt i lawer o drigolion lleol. Dyna pam y defnyddiais bwerau adfywio o dan Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 i gyflwyno'r gronfa datblygu swyddfeydd post. Mae £2.5 miliwn ar gael yn y gronfa honno i gynnal swyddfeydd post sy'n gwasanaethu ein cymunedau mwyaf difreintiedig ac ynysig.

*Atebwyd cwestiwn 11 (OAQ23823) yn y Cyfarfod Llawn.*

### Cyflogau Ymladdwyr Tân

**C12 Cynog Dafis:** A gynhaliwyd astudiaeth ar yr effaith y bydd unrhyw gynnydd yng nghyflogau ymladdwyr tân yn ei chael ar gyllidebau awdurdodau lleol? (OAQ23824)

**Edwina Hart:** Hyd nes y daw anghydfod cyflogau'r ymladdwyr tân i ben, nid yw'n bosibl rhagweld yr effaith y caiff hyn ar gyllidebau awdurdodau lleol.

### Cyngor Sir Caerdydd (Rhagweld Diffyg yn y Gyllideb)

**C13 Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y diffyg a ragwelir yng nghyllideb Cyngor Sir Caerdydd ar gyfer 2003-04? (OAQ23826)

**Edwina Hart:** Mater i Gyngor Sir Caerdydd yw ei gyllideb ar gyfer 2003-04.

### Mesurau Cymunedol i Helpu Cwm Cynon

**C14 Christine Chapman:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y mesurau cymunedol i helpu cwm Cynon? (OAQ23832)

**Edwina Hart:** Mae sawl mesur cymunedol y Cynulliad o fudd i gwm Cynon. Er enghraifft, o dan y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, dyrannwyd £1.78 miliwn i hybu adfywio cymunedol mewn ardaloedd ar draws cwm Cynon.

Yn ogystal, o dan Amcan 1 blaenoriaeth 3 (adfywio economaidd cymunedol), neilltuwyd bron i £6 miliwn ar gyfer prosiectau lleol yn Rhondda Cynon Taf, sef buddsoddiad o dros £10 miliwn, y bydd peth

ohono o fudd uniongyrchol i gwm Cynon. Bydd prosiectau a gymeradwywyd gan bartneriaethau eraill hefyd yn effeithio'n gadarnhaol ar faes adfywio economaidd cymunedol.

### Adnewyddu Tai yn Rhondda Cynon Taf

**C15 Lorraine Barrett:** Yn dilyn y digwyddiadau diweddar yn Rhondda Cynon Taf, lle yr oedd adnewyddu un tŷ teras yn costio bron i £300,000, pa systemau sydd gan y Gweinidog ar waith i atal hyn rhag digwydd eto? (OAQ23814)

**Edwina Hart:** Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw adnewyddu grantiau'r sector preifat. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau ei fod yn gwario ei adnoddau'n gall ac yn eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithol yn unol â phwysau a blaenoriaethau lleol. Rhaid i awdurdodau lleol hefyd sicrhau bod eu gwariant yn cydymffurfio'n llawn â gofynion archwilio'r dosbarth.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

### Mynediad i Gefn Gwlad

**C5 Janet Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt y trefniadau i ganiatáu mynediad i gefn gwlad o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000? (OAQ23862)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex):** Gwneir cynnydd da iawn. Mae'r Cynulliad wedi cymeradwyo'r fframwaith rheoliadol ac mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn mapio ehangder y tir mynediad agored ac yn paratoi cyfarwyddyd perthnasol. Disgwyliaf i'r hawl mynediad newydd gael ei gyflwyno ar draws Cymru yn ystod gwanwyn 2005. Cyhoeddais ddatganiad ar hyn i Aelodau yn gynharach heddiw. Heddiw, cadeiriais gyfarfod cyntaf grŵp llywio cyfleoedd cefn gwlad.

### Yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth (Brycheiniog a Sir Faesyfed)

**C6 Kirsty Williams:** Beth y mae'r Llywodraeth bartneriaeth wedi'i gyflawni ym meysydd polisi yr amgylchedd, cynllunio a thrafnidiaeth ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? (OAQ23838)

**Sue Essex:** Mae cyfrifoldebau fy mhortffolio yn cynnwys ystod eang o weithgareddau. Cyflwynwyd llwyddiannau Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran yr amgylchedd, cynllunio a thrafnidiaeth i'r Pwyllgor Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth ar 26 Mawrth 2003.

### Prosiect Bluestone

**C7 Cynog Dafis:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro ynghylch prosiect Bluestone? (OAQ23869)

**Sue Essex:** Nid wyf wedi trafod y prosiect hwn gyda'r awdurdod. Ni fyddai'n addas i mi wneud hynny, gan y gallai'r Cynulliad Cenedlaethol ddod yn rhan o'r broses gynllunio.

### Polisïau Llwyddiannus yn Nelyn

**C8 Alison Halford:** A wnaiff y Gweinidog restru'r polisïau a fu'n llwyddiannus ganddi yn Nelyn? (OAQ23872)

**Sue Essex:** Mae fy nghyfrifoldebau portffolio yn cynnwys amrediad eang o weithgareddau. Cyflwynwyd llwyddiannau Cynulliad y Llywodraeth mewn perthynas a'r amgylchedd, cynllunio a thrafnidiaeth i'r Pwyllgor Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth ar 26 Mawrth 2003.

**Polisïau Trafnidiaeth yng Nghwm Cynon**

**C9 Christine Chapman:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bolisïau trafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru sydd wedi dod â budd i drigolion cwm Cynon? (OAQ23841)

**Sue Essex:** Fel rhan o Gonsortiwm Cludiant Integredig Cyflym De Cymru, cwblhawyd gwelliannau rheilffyrdd yn Aberpennar gan gostio £3.6 miliwn. Mae'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol wedi cytuno, o fis Medi 2003, i ddarparu arian refeniw i redeg gwasanaethau ychwanegol i Aberpennar, y bydd rhai ohonynt yn ymestyn i Aberdâr. Yr ydym wedi dyrannu grant gwasanaethau trafnidiaeth lleol o £543,000 i Rhondda Cynon Taf yn 2003-04 i roi cymorthdaliadau i wasanaethau bysiau ac i gefnogi trafnidiaeth gymunedol. Yn ychwanegol at hyn, caiff tocynnau mantais eu hymestyn o 1 Ebrill i gynnwys dynion dros 60 oed.

**Camlas Trefaldwyn**

**C10 Cynog Dafis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y mesurau cadwraeth yr effeithiwyd arnynt gan gamlas Trefaldwyn? (OAQ23864)

**Sue Essex:** Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw fesurau cadwraeth yr effeithiwyd arnynt gan gamlas Trefaldwyn. Mae'r gamlas ei hun yn ardal gadwraeth arbennig, sydd wedi'i enwi felly oherwydd y llyriad nofiadwy, sef planhigyn y'i hystyrir yn brin ar draws Ewrop. Er mwyn cadw bywyd gwyllt y gamlas, bydd angen ymagwedd wahanol i gynefinoedd eraill, ac mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn asesu pob cynllun neu brosiect er mwyn sicrhau y caiff unrhyw effeithiau sylweddol ar nodweddion cadwraeth natur y gamlas eu hosgoi.

**Anghydfod ynghylch Ffiniau**

**C11 Owen John Thomas:** Pa gamau all y Gweinidog eu cymryd i amddiffyn hawliau unigolion sydd mewn anghydfod ynghylch ffiniau â sefydliadau sy'n derbyn arian cyhoeddus? (OAQ23858)

**Sue Essex:** Mae'r system sy'n rheoli datblygiadau yn ei gwneud yn ofynnol i rybuddio perchnogion tir bod ceisiadau cynllunio yn effeithio arnynt . Fodd bynnag, nid yw anghydfodau dros berchnogaeth cyfreithiol a ffiniau tir yn ystyriaethau perthnasol wrth benderfynu ceisiadau. Mater i'r llysoedd ydynt, nid y gyfundrefn gynllunio.

**Gwella Cyfleoedd i Dwristiaid**

**C12 Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar fentrau sy'n ei gwneud hi'n haws i dwristiaid ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, seiclo neu gerdded yn hytrach na defnyddio'u ceir eu hunain yn ystod eu hymweliadau, yn unol â'n cylch gwaith ar gyfer datblygu cynaliadwy? (OAQ23836)

**Sue Essex:** Yr ydym yn cefnogi prosiectau partneriaeth Goriad Gwyrdd Eryri drwy ddarparu £515,000 o grantiau trafnidiaeth yn 2003-04. Anelir y prosiectau at annog newid modd yn Eryri drwy ddatblygu cyfnewidfeydd o safon, creu ffyrdd hygyrch ar gyfer cerddwyr a seiclwyr, a chefnogi gwasanaethau bysiau. Bydd ein cefnogaeth i wella trafnidiaeth gyhoeddus drwy'r grant trafnidiaeth, gan gynnwys datblygu ffyrdd cerdded a seiclo i orsafoedd bysiau, canol trefi a chyrchfannau mawr, o fudd i dwristiaid yn ogystal â phobl leol ledled Cymru.

**Yr Hawl i Grwydro (Y Broses Fapio)**

**C13 Alun Pugh:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y broses fapio o dan y Ddeddf hawl i grwydro? (OAQ23850)

**Sue Essex:** Gwneir cynnydd da. Mae'r Cynulliad wedi rhoi'r fframwaith rheoleiddio angenrheidiol ar waith, ac mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn cyhoeddi mapiau drafft o wlad agored a thir comin

cofrestredig ac yn ymgynghori arnynt fesul ardal. Mae'r mapiau drafft cyntaf hefyd wedi'u cyhoeddi ar gyfer ymghynghori. Gan ddibynnu ar brosesu apelau perthnasol yn llwyddiannus, disgwylir i'r mapiau terfynol gael eu cyhoeddi erbyn diwedd 2004, yn barod ar gyfer cyflwyno mynediad agored ar draws Cymru yng ngwanwyn 2005. Cyhoeddais ddatganiad i bob Aelod Cynulliad yn gynharach heddiw, yn darparu gwybodaeth bellach ar weithredu cyffredinol y darpariaethau mynediad agored.

**Rôl Gwarchodwyr (Tir Comin Ynys Môn)**

**C14 Peter Rogers:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar rôl gwarchodwyr yn y broses o gymryd penderfyniadau mewn perthynas â thir comin Ynys Môn? (OAQ23877)

**Sue Essex:** Mae Cyngor Sir Ynys Môn, awdurdod cofrestru tiroedd comin yr ardal, ond yn ymwybodol o un bwrdd o warchodwyr yn gweithredu ar yr ynys. Ffurfiwyd y bwrdd o dan Ddeddf Rheoleiddio Tir Comin (Tywyn Trewan) Gorchymyn Dros Dro 1908, a cheir cynrychiolaeth gan berchnogion tir a chynghorau cymuned amrywiol.

Mae gan y bwrdd bwerau i reoli comin Tywyn Trewan yn gyffredinol ac, er mwyn osgoi niwsans a rheoleiddio hawliau i arfer tir comin, i wneud is-ddeddfau a rheoliadau a fyddai'n dibynnu ar unrhyw gadarnhad sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith. Fel arall, nid oes unrhyw ddarpariaeth yn y ddeddfwriaeth yn ymwneud â chomin Tywyn Trewan sy'n mynnu cydsyniad y Cynulliad mewn perthynas â gweithredu pwerau'r bwrdd.

Ynglŷn â thir comin arall ar Ynys Môn, nid oes gan y bwrdd gwarchodwyr swyddogaethau statudol mewn perthynas â phenderfyniadau sy'n ymwneud â'r fath dir.

**Strategaeth 'Dyfrffyrdd Cymru'**

**C15 Brian Hancock:** Pa gamau y bydd y Gweinidog yn eu cymryd ar ôl cyhoeddi strategaeth 'Dyfrffyrdd Cymru'? (OAQ23863)

**Sue Essex:** Dechreuodd y broses ymghynghori ar 7 Mawrth ac nid wyf yn disgwyl derbyn dogfen strategaeth Dyfrffyrdd Prydain tan yn hwyrach eleni, pan yr ystyriaf pa gamau sy'n briodol o ystyried nad yw hyn yn faes cyfrifoldeb a ddatganolwyd. Byddaf yn parhau i gymryd diddordeb yn y pwnc, ac anogaf Dyfrffyrdd Prydain yn ei benderfyniad i godi proffil dyffrffyrdd Cymru.